# SIARTER ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR BGC BRO MORGANNWG

*Dathlu ein hamgylchedd a gadael etifeddiaeth falch i genedlaethau'r dyfodol*

## EIN HYMRWYMIAD:

Gan weithredu gyda'n gilydd ledled Bro Morgannwg, bydd pob partner BGC yn gweithio ar y cyd, o fewn ein sefydliadau ac ar draws cymunedau i:

- ***lleihau niwed amgylcheddol***
- ***lleihau allyriadau carbon***
- ***gwella bioamrywiaeth a natur***

## GYDA'N GILYDD, BYDDWN YN:

- Dangos arweinyddiaeth, atebolrwydd a chefnogi **newid ymddygiad**.
- Gweithio gyda'n gilydd i ddeall y **newidiadau a'r camau gweithredu** sydd eu hangen i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i warchod a rheoli o leiaf 30% o dir a môr ar gyfer bioamrywiaeth erbyn 2030, **a elwir yn 30 erbyn 30**.
- Gweithio gyda'n gilydd i **gyflawni targedau sero net** i'n sefydliadau erbyn 2030 ac ar gyfer Cymru sero net erbyn 2050.

## FEL PARTNERIAETH, A THRWY WAITH EIN SEFYDLIADAU,
## GYDA'N GILYDD BYDDWN YN:

**1** Deall, gwerthfawrogi a diogelu'r amgylchedd naturiol

**2** **Ehangu** a **chysylltu** cynefinoedd naturiol

**3** **Creu cyfleoedd** i bawb gysylltu â natur

**4** **Cadw** a **gwerthfawrogi** ein hadnoddau drwy flaenoriaethu lleihau gwastraff dros ailddefnyddio, ailgylchu, adfer a gwaredu

**5** Ymgorffori **cynaliadwyedd** ymhellach yn ein polisïau a'n harferion caffael, a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol

**6** **Datgarboneiddio** ein hadeiladau gan ganolbwyntio ar y defnydd o ynni, dŵr, a sut rydym yn defnyddio ein mannau

**7** **Cryfhau** arferion rheoli tir ac adeiladau aeddfed a chyfeillgar i'r hinsawdd ar draws ein sefydliadau

**8** **Annog** a **hyrwyddo** teithio carbon isel tra'n datgarboneiddio ein fflyd a sicrhau seilwaith priodol i gefnogi newid

Our Vale · Ein Bro
Vale of Glamorgan Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
HM Prison & Probation Service
GVS
GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner
Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Vale of Glamorgan
Bro Morgannwg

# SIARTER ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR BGC BRO MORGANNWG

*Dathlu ein hamgylchedd a gadael etifeddiaeth falch i genedlaethau'r dyfodol*

## ARDDANGOS CYNNYDD

### ER MWYN DANGOS CYNNYDD, BYDD PARTNERIAID YN:

**Mesur ac adrodd am gynnydd** yn erbyn ein hymrwymiadau yn flynyddol, gan wneud y gorau o ddata yr ydym eisoes yn ei gasglu a llenwi'r bylchau i'n helpu i symud ymlaen a deall ein heffaith.

**Adolygu** a **diweddaru polisïau** a **strategaethau** sydd eisoes yn eu lle, yn ôl yr angen, ac edrych i'w datblygu pan fydd bylchau. Cael y bobl iawn ar waith i **arwain ar yr ymrwymiadau**. Os na, mae gennym ffyrdd eraill i'n helpu i symud ymlaen.

**Gwneud defnydd o gynlluniau** sy'n ein helpu i ddatblygu ac olrhain cynnydd e.e. y Siarter Teithio Iach.

Parhau i **rannu dysgu** ar draws y bartneriaeth a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i **gydweithio** a rhannu adnoddau.

Bod yn ymwybodol o a defnyddio **dogfennau** a **chanllawiau** sy'n cefnogi ein hymrwymiadau e.e. y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, canllawiau caffael cenedlaethol, ac offer defnydd tir CLlLC.

Rhedeg **ymgyrchoedd newid ymddygiad** ar gyfer staff, defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau, a gwybod pa effaith maen nhw'n ei chael.

**Rhannwch y gwaith** yr ydym yn ei wneud gyda'r **cyhoedd**.

**Ymgysylltu** a **chynnwys** y cyhoedd i lunio sut rydym yn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.